



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Nodiadau wedi'i gadarnhau Cyfarfod Briffio'r Bwrdd  
a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2023, 14:45**

<b>Yn bresennol:</b>		
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Dros Dro Ymchwil a Datblygu Polisi, yr Adran Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol
Zoe Wallace	(ZW)	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Kate Eden	(KE)	Dirprwy Gadeirydd
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a Chyfarwyddwr Gweithredol
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid

Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu y Bwrdd
<b>Ymddiheuriadau:</b>		
Diane Croen	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau
John Bolton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau a restrir uchod.

## 2. Sefyllfa Ariannol y GIG

Cyflwynodd JW y briff a oedd yn deillio o'r cyfarfod brys gyda'r Gweinidog yr wythnos diwethaf; roedd y Gweinidog wedi amlinellu'r angen i bob un o sefydliadau'r GIG ddatblygu cynigion i leihau gwariant, o gofio sefyllfa ariannol gyffredinol GIG Cymru yn 2023/24.

Roedd y Gweinidog wedi amlinellu'r paramedrau ac wedi gofyn i'r cynigion ddod i law erbyn 11 Awst.

Amlinellodd TC y camau gweithredu a roddwyd ar waith gan y Tîm Gweithredol, gan gynnwys llunio egwyddorion a fyddai'n sail i ddatblygu unrhyw gynigion, fel a ganlyn:

- Un gwasanaeth cyhoeddus ydym a byddwn yn chwarae ein rhan yn y gwaith o gefnogi'r GIG ehangach lle bynnag y bo'n bosibl.
- Byddwn yn gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Ni fyddwn yn cyfaddawdu ar ein swyddogaethau statudol, yn arbennig y gwasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd.
- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar geisio gwyrddroi niwed i iechyd y boblogaeth.
- Byddwn yn rhoi terfyn ar wariant diangen (mae angen gwaith pellach i ddiffinio gwariant diangen).
- Byddwn yn parhau i adolygu ein sefyllfa ariannol drwy gydol y flwyddyn gyda'r bwriad o ddarparu mwy o gymorth mewn perthynas â sefyllfa ariannol GIG Cymru.

O ran cymhwyso'r egwyddorion, dywedodd TC fod y Tîm Gweithredol yn adolygu'r dyraniad, gan ystyried yr ymrwymadau ble nad yw gwaith wedi dechrau arnynt eto, gwariant ar wasanaethau a gomisiynir, arbedion yn sgil ailgodi tâl ac effeithlonrwydd.

Cyfeiriodd AW at y meysydd hynny sydd angen eu hystyried ymhellach, gan gynnwys yr Achosion Busnes ar gyfer cyllido Sgrinio Canser yr Ysgyfaint a

Sgrinio Newydd-anedig, adfer y gwasanaethau sgrinio, Cymru Iach ar Waith ac Ymchwiliadau Cyhoeddus.

Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r broses o ddatblygu'r egwyddorion; byddai'r rhain yn sicrhau y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodloni ei rwymedigaethau fel rhan o GIG Cymru ond na fydd unrhyw effaith ar ei swyddogaethau statudol.

Roedd MM yn cefnogi'r dull a gynigiwyd, gan amlygu'r angen i ymgysylltu â'r staff cyn gynted â phosibl, yn unol â diwylliant Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ychwanegodd ZW at y pwynt hwn, gan holi pryd y dylid amseru'r negeseuon at y staff.

Nododd KY fod angen adolygu'r effaith bosibl ar bartneriaid y Trydydd Sector ac osgoi cyfrif unrhyw gynigion i arbed arian ddwywaith.

Myfyriodd NE ar bwysigrwydd cynyddol dangos gwerth ac effaith yr arian cyhoeddus a fuddsoddir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Derbyniodd TC bwynt NE a'i gysylltu â'r ffaith ei bod yn angenrheidiol parhau i ganolbwyntio ar symud i waith atal ac ar rôl arweinyddiaeth system Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyn o beth. Aeth ymlaen i gadarnhau'r bwriad i ymgysylltu â'r staff cyn gynted â phosibl, yn unol â'r amserlen a'r Canllawiau gan Weinidogion.

Diolchodd JW i'r Bwrdd am y sylwadau a wnaed a nodi'r gefnogaeth i'r camau gweithredu a amlinellodd TC; cynhelir sesiwn Frifio arall ar gyfer y Bwrdd ar 10 Awst, i ystyried y cynigion datblygedig cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 11 Awst. Mynegodd werthfawrogiad y Bwrdd i bawb fu'n rhan o lunio'r cynigion, a hynny ar gymaint.

Daeth y Cyfarfod i ben am 15:10